

## Taflen Ganllaw 3 – Rheolaeth Ariannol

Efallai eich bod chi'n darparu gwasanaeth y mae galw mawr amdano yn eich cymuned. Dyna eich arbenigedd chi. Bydd darparu'ch gwasanaeth yn mynd â'r rhan fwyaf o'ch amser. Er hynny, peidiwch ag anwybyddu rheoli ochr ariannol eich busnes. Gall rheoli arian sy'n gysylltiedig â'ch busnes gael ei rannu'n ddau categori:

1. Llif arian, deall faint o arian rydych chi ei angen i gynnal eich busnes a pha mor dda mae'n gweithio.
2. Atebolrwydd cyfreithiol.

Y peth sy'n allweddol i reoli arian yn dda ydi cadw cofnodion ariannol cyfredol. Drwy wneud hyn, byddwch yn gallu gweld yn syth pa mor dda ydych chi'n gwneud a phryd mae problemau ariannol ar ddod.

### 1. Taenlen llif arian

Mae pob busnes angen hyn a hyn o arian yn ystod y cyfnod sefydlu ac i'w cynnal. Os ydych chi'n mynd heb arian, efallai y cewch chi eich hun mewn sefyllfa lle na allwch ddal ati e.e. os nad ydych chi'n gallu prynu nwyddau hanfodol i redeg eich busnes. Felly, mae **llif arian** yn hollbwysig. Bydd hyn yn eich helpu i reoli a monitro eich incwm a'ch gwariant misol. Os ydych chi'n ei chreu hi'n gywir, bydd eich taenlen yn cynnwys y rhan fwyaf o'r wybodaeth fyddwch chi ei hangen i gwblhau eich hunanasesiad blynyddol y byddwch yn ei gyflwyno i'r Adran Cyllid a Thollau bob blwyddyn. Pethau i feddwl amdanynt:

1. Creu taenlen i gofnodi holl incwm a gwariant eich busnes.
2. Os ydych chi'n gallu ei gosod i gyfrifo'r balans misol, bydd hyn yn eich helpu i fonitro eich union sefyllfa ariannol.
3. Efallai y byddai'n well gennyh chi ddefnyddio meddalwedd cadw cyfrifon sydd ar gael i'w phrynu.
4. Meddyliwch pa dreuliau busnes y gallwch chi eu hawlio'n ôl, e.e. hysbysebu, iwnifform gwaith, cyfarpar diogelu personol, ffioedd banc, ffôn gwaith, teithio, ac ati.
5. Gwybodaeth arall mae angen i chi feddwl amdani a fydd yn eich helpu i gwblhau eich ffurflen hunanasesiad blynyddol ar gyfer yr Adran Cyllid a Thollau, e.e. os oes gennyh chi waith arall, incwm o ffynonellau eraill neu os ydych yn derbyn unrhyw fudd-daliadau ac ati.

### Rhagor o wybodaeth

- Templed taenlen syml
- Hunanasesiad

Cliciwch yma  
[Cliciwch yma](#)

## 2. Atebolrwydd Cyfreithiol - Unig Fasnachwr

Fel Unig Fasnachwr, rydych chi'n hunangyflogedig a bydd angen i chi osod eich system gyfrifeg i gofnodi eich incwm (arian rydych chi'n ei ennill o redeg eich busnes) a'ch gwariant (arian rydych chi'n ei dalu i redeg eich busnes). Pethau i feddwl amdanynt:

1. **Cyfrif Banc** - Nid yw Unig Fasnachwr ar wahân yn gyfreithiol i'w fusnes felly nid yw cyfrif busnes ar wahân yn angenrheidiol yn ôl y gyfraith, ond mae cyfrif banc ar wahân yn helpu i gadw arian y busnes ar wahân i'ch arian personol. Mae bod â chyfrif yn benodol ar gyfer y busnes yn ei gwneud yn hawdd cofnodi incwm a gwariant y busnes. Bydd hyn yn ei gwneud yn llawer haws pan ydych chi'n cwblhau eich Ffurflen Hunanasesiad Treth i'w chyflwyno i'r Adran Cyllid a Thollau.
2. **Lwfans Personol** - Mae pawb sy'n gweithio â hawl i Lwfans Personol ar incwm trethadwy. Nid ydych chi'n talu treth ar eich Lwfans Personol. Mae hyn yn newid y rhan fwyaf o flynyddoedd, felly gofalwch eich bod chi'n gwybod beth yw'r lwfans cywir ar gyfer pob blwyddyn dreth.
3. **Treth Incwm** - Fe fyddwch chi'n talu treth incwm ar yr holl incwm uwchben eich Lwfans Treth Personol. Mae faint o Dreth Incwm y byddwch chi'n ei dalu'n dibynnu ar faint o incwm mae eich busnes yn ei gynhyrchu. Mae hyn wedi'i rannu'n 3 band treth, Treth Incwm Sylfaenol, Treth Incwm Uwch a Threth Incwm Ychwanegol ar incwm dros lefel benodol.
4. **Cyfraniadau YG (Yswiriant Gwladol)** - Dosbarth 2 a Dosbarth 4  
Mae **Dosbarth 2** i'w dalu os ydych chi'n ennill dros lefel benodol bob blwyddyn e.e. ym mlwyddyn ariannol 2020-21, mae angen cyfraniadau YG os oes gennych chi incwm o fwy na £6,475. Gall hyn newid bob blwyddyn. Os ydych chi'n ennill llai na hyn, gallwch ddewis talu Cyfraniadau YG gwirfoddol. Trwy wneud hyn, ni fydd gennych fylchau yn eich cofnod Cyfraniadau YG. Mae bylchau'n golygu na fydddech chi efallai â digon o flynyddoedd o Gyfraniadau YG i gael Pensiwn y Wladwriaeth yn llawn.  
Mae **Dosbarth 4** i'w dalu gan bob hunangyflogedig sy'n gwneud elw o £9,501 neu fwy y flwyddyn (gall hyn newid).
5. Rhowch arian i'r **ochr** o'ch incwm bob mis i fynd tuag at eich bil treth blynyddol a'ch Cyfraniadau YG. Peidiwch â chael tro gwael ar ddiwedd blwyddyn ariannol a bod heb ddigon o arian yn eich cyfrif busnes i dalu eich bil Treth Incwm.
- 6.

### Rhagor o wybodaeth

- Treth Incwm a Lwfans Personol [Cliciwch Yma](#)
- Cyfraniadau YG i'w talu [Cliciwch Yma](#)
- Gweld eich cofnodion Yswiriant Gwladol [Cliciwch Yma](#)
- Yswiriant Gwladol gwirfoddol [Cliciwch Yma](#)

### 3. Atebolrwydd Cyfreithiol - Partneriaeth

Gall Partneriaeth fod yn ddau o bobl neu fwy'n dod ynghyd i redeg busnes. Mae pob partner yn rhannu cyfrifoldeb am weithgarwch y busnes a byddant yn talu treth personol i'r Adran Cyllid a Thollau am eu cyfran nhw o incwm mae'r busnes yn ei greu, a bydd y bartneriaeth yn talu treth ar yr elw mae'r busnes yn ei wneud ar y cyfan. Pethau i feddwl amdanynt:

1. Wrth ffurfio'r bartneriaeth, bydd angen i chi ddewis Partner Enwebedig. Yr unigolyn hwn fydd yn gyfrifol am reoli cofnodion y Bartneriaeth ac anfon ffurflenni treth at yr Adran Cyllid a Thollau.
2. Bydd y Bartneriaeth angen cofrestru â'r Adran Cyllid a Thollau.
3. Mae pob partner yn gyfrifol am eu Cyfraniadau YG a'u Treth Incwm eu hunain. Mae hyn yn cynnwys eu rhan nhw o elw'r busnes.
4. Mae Partner Enwebedig yn gyfrifol am:
  - 4.1 Ffeilio ffurflen dreth y bartneriaeth bob blwyddyn.
  - 4.2 Delio â'r holl faterion sy'n codi o ymchwiliad i mewn i ffurflen dreth y bartneriaeth.
  - 4.3 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r holl bartneriaid am ddatblygiadau'r ymchwiliad.

#### Gwybodaeth Bellach:

- Hunanasesiad a Phartneriaethau [Cliciwch Yma](#)

### 4. Atebolrwydd Cyfreithiol - Cwmni

Mae cwmnïau cyfyngedig fel arfer yn fusnesau sy'n gwneud elw. Mae hyn yn golygu bod y cwmni:

1. Ar wahân yn gyfreithiol i'r bobl sy'n ei redeg.
2. Ag arian ar wahân i'ch arian personol chi.
3. Â chyfranddaliadau a chyfranddalwyr.
4. Yn gallu cadw unrhyw elw mae'n ei wneud ar ôl talu treth.

Mae'n rhaid i'r cwmni fod â systemau i gyflawni'r dyletswyddau cyfreithiol canlynol:

1. Cofrestru â'r Adran Cyllid a Thollau fel cyflogwr.
2. Mae'n rhaid i'r cwmni dalu o leiaf yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol.
3. Mae'n rhaid i'r cwmni gynnal cyflogres fisol i dalu ei weithwyr.
4. Mae'r cwmni'n gyfrifol am daliadau misol i'r Adran Cyllid a Thollau sy'n cynnwys Cyfraniadau YG gweithwyr a Chyfraniadau YG cyflogwyr.
5. Mae'r cwmni'n gyfrifol am gofrestru gweithwyr â Chynllun Pensiwn Gweithle oni bai fod gweithiwr yn dewis peidio a bod yn rhan o'r cynllun. Mae cyfraniadau i Gynllun Pensiwn Gweithle'n cael eu gwneud yn fisol, gyda % o gyfraniad gan y gweithiwr a % o gyfraniad gan y cyflogwr.

## Gwybodaeth Bellach:

- Cofrestru â'r Adran Cyllid a Thollau fel cyflogwr
- Cyflogi staff
- Isafswm Cyflog Cenedlaethol
- Cynnal cyflogres a thaliadau Cyllid a Thollau
- Cynllun Pensiwn Gweithle

[Cliciwch Yma](#)  
[Cliciwch Yma](#)  
[Cliciwch Yma](#)  
[Cliciwch Yma](#)  
[Cliciwch Yma](#)

## Datblygu a Chymorth Meicro-ofal

Rob Loudon, Meicro-ofal, Swyddog Datblygu a Chynllunio  
Rhif ffôn: 01352 701461  
E-bost: [Robert.loudon@flintshire.gov.uk](mailto:Robert.loudon@flintshire.gov.uk)  
Swyddog Datblygu Meicro-ofal

Marianne Lewis, Meicro-ofal, Swyddog Cynllunio a Datblygu  
Rhif ffôn: 01352 702126  
E-bost: [Marianne.lewis@flintshire.gov.uk](mailto:Marianne.lewis@flintshire.gov.uk)  
Swyddog Datblygu Meicro-ofal

## Cymorth i Fusnesau

San Leonard, Prif Weithredwr Cwmnïau Cymdeithasol Cymru  
Rhif ffôn: 07799 345 940  
E-bost: [sanleonard@socialfirmswales.co.uk](mailto:sanleonard@socialfirmswales.co.uk)

Busnes Cymru  
Rhif ffôn: 03000 603 000  
Gwefan: <https://busnescymru.llyw.cymru>